www.xtrapapers.com

OCR
Oxford Cambridge and RSA

# Dydd Mawrth 10 Ionawr 2017 – Bore

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ATODIAD ASTUDIAETH ACHOS**

*6893796367*

**Amser:** 1 awr

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Mae hwn yn gopi glân o'r Astudiaeth Achos y dylech fod wedi ei gweld eisoes.
- Dylech gyfeirio ati wrth ateb cwestiynau'r arholiad sydd wedi eu hargraffu mewn llyfryn ar wahân.
- **Ni** chewch fynd â'ch copi blaenorol o'r Astudiaeth Achos i'r arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

**CYFARWYDDYD I'R SWYDDOG ARHOLIADAU/GORUCHWYLIWR**

- Peidiwch ag anfon yr Astudiaeth Achos hon i'w marcio; dylid ei chadw yn y ganolfan neu'i hailgylchu. Cysylltwch â Hawlfraint OCR os byddwch yn dymuno ailddefnyddio'r ddogfen hon.

© OCR 2017 [K/503/6025]
DC (KN) 143785/1

Mae OCR yn Elusen eithriedig

**Trowch y dudalen**

www.xtrapapers.com



**Gwybodaeth i Ddysgwyr**

Pan mae cwsmeriaid yn cadw lle mewn tŷ bwyta, maen nhw'n bwcio bwrdd ac yn dweud faint o bobl fydd yn mynd yno. Mae llawer o dai bwyta yn cynnig rhestr benodol o brydau bwyd y gall cwsmeriaid ddewis ohoni, ond maen nhw hefyd yn amrywio'r prydau bwyd maen nhw'n eu cynnig gyda phrydau arbennig wythnosol. Caiff y dewisiadau ar gyfer prydau bwyd eu cyflwyno mewn bwydlen (Senario 1).

Mae gan lawer o dai bwyta rota o staff i weithio bob wythnos. Caiff nifer benodol o oriau eu rhoi i staff am yr wythnos, ond efallai byddan nhw'n cael cynnig oriau gwaith ychwanegol os bydd aelod o staff yn absennol (Senario 2).

**Senario 1**

Tŷ bwyta bach sy'n arbenigo mewn bwyd Ffrengig ac Eidalaidd yw *Felicity*. Mae'r tŷ bwyta yn cynnig prydau bwyd penodol (*set meals*) a phrydau arbennig wythnosol, ac mae'n creu bwydlen newydd bob wythnos.

I archebu bwyd, mae cwsmeriaid yn defnyddio cyfrifiadur cludadwy, sy'n cael ei ddarparu gan y tŷ bwyta, yn hytrach na rhoi eu harcheb i weinydd. Caiff archebion eu gosod trwy glicio ar ddelwedd o'r pryd bwyd sy'n cael ei archebu ac wedyn clicio ar y botwm cyflwyno. Pan gaiff archeb ei gosod, bydd yr archeb yn cael ei hanfon i ddyfais allbynnu yn y gegin.

Mae gwefan gan y tŷ bwyta gyda ffurflen bwcio y gall cwsmeriaid ei defnyddio ar gyfer bwcio byrddau.

Mae'r tŷ bwyta yn darparu ap sy'n gallu cael ei lawrlwytho am ddim. Mae'r cwsmeriaid yn gallu defnyddio hwn i dalu eu biliau, ac os ydyn nhw'n dymuno, llwytho i fyny ddelweddau ac adolygiadau o'u prydau bwyd.

**Senario 2**

Bob mis, mae'r tŷ bwyta'n cynnal parti thema. Mae hwn yn barti â cherddoriaeth, dawnsio a bwffe bys a bawd heb unrhyw seddi wrth fyrddau. Caiff y partïon eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol ac ar daflenni sy'n cael eu dosbarthu trwy siopau lleol. Thema'r mis nesaf yw 'Pync-Stêm' (*Steam Punk*). Mae'r daflen bob mis yn gynhyrchiad chwaethus (*lavish*) sy'n cyfuno graffigwaith sydd i'w weld ar y we yn ogystal â graffigwaith wedi ei greu gan reolwr y tŷ bwyta. Hoffai'r rheolwr greu taflen yr un mor drawiadol ar gyfer parti'r mis nesaf ac mae wedi bod yn chwilio am graffigwaith addas heb hawlfraint y gallai ei ddefnyddio.

Bydd mynediad i bob parti trwy docyn yn unig. Caiff tocynnau eu postio i gwsmeriaid wythnos cyn pob digwyddiad. Ar ôl y parti diwethaf, gwnaethon nhw ddarganfod bod rhai tocynnau wedi cael eu ffugio, ac felly mae'r rheolwr yn edrych ar ffyrdd sy'n gallu cael eu defnyddio i adnabod tocynnau ffug.

Mae'r rheolwr yn defnyddio cronfa ddata i gofnodi faint o bobl sydd wedi bwcio i fynd i'r parti bob mis. Mae rheolau dilysu wedi eu cynnwys ar y gronfa ddata.

Ychydig o oriau cyn pob parti, mae'r rheolwr yn gwirio pa staff sydd ar gael i weithio. Wedyn, gofynnir i staff eraill am eu manylion cyswllt i'w defnyddio mewn argyfwng rhag ofn bod unrhyw broblemau â staff yn methu gweithio oherwydd salwch neu broblemau eraill.

www.xtrapapers.com



**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r ffordd y mae tŷ bwyta yn gweithio o ddydd i ddydd.

Dylai hyn gynnwys:

- defnyddio caledwedd a meddalwedd y mae eu hangen i gefnogi swyddogaeth fusnes y sefydliad;
- defnyddio ffurflenni ar-lein er mwyn i gwsmeriaid allu bwcio byrddau mewn tai bwyta a sut dylai'r ffurflenni hyn gael eu strwythuro;
- y cynnwys sy'n cael ei roi mewn posteri a'r ffyrdd sy'n gallu cael eu defnyddio i greu'r posteri hyn;
- manteision i dai bwyta o ddefnyddio trwydded eiddo creadigol cyffredin (*creative commons licence*);
- y gwahanol ddulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i gysylltu â staff unigol, a manteision ac anfanteision pob dull.

Dylech chi hefyd ymchwilio i'r canlynol:

- sut gallai cyfrifiaduron cludadwy gael eu defnyddio mewn tŷ bwyta, a manteision ac anfanteision gwneud hynny;
- manteision, anfanteision a goblygiadau darparu ap sy'n gallu cael ei lawrlwytho am ddim er mwyn i gwsmeriaid allu ei ddefnyddio i dalu eu biliau, yn ogystal â'r cymhelliant/cymhellion dros ddarparu ap o'r fath;
- y dulliau dilysu sy'n cael eu defnyddio mewn cronfa ddata;
- y dulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd staff sy'n gweithio wrth y drws yn gallu adnabod tocynnau ffug a sut maen nhw'n gweithio.

www.xtrapapers.com



Oxford Cambridge and RSA

**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2017